CYLCHGRAWN UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

# Yr Athro

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Rhifyn Tachwedd '25

## NEGES GAN Y LLYWYDD



Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, mae UCAC yn croesawu unigolyn newydd i rôl Llywydd yr Undeb. Eleni, Sara Edwards, Pennaeth Gwyddoniaeth Ysgol y Moelwyn yw ein Llywydd Cenedlaethol. Rydym wedi ei chyflwyno mewn rhifyn blaenorol o'r Athro.

Yn y rhifyn hwn cawn gipolwg o'i hanner tymor cyntaf yn y swydd.

**mwy ar dudalen 2**



## DOD I NABOD

### SWYDDOG MAES Y DE-DDWYRAIN A PHOWYS

### MERERID LEWIS DAVIES

## 10 Diwrnod Dolig UCAC

10 EITEM GYMREIG

10 AELOD LWCUS



*Yn dechrau Dydd Llun y 1af o Ragfyr*

#10DiwrnodDoligUCAC

UCAC Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

## O NERTH I NERTH!!

**Arian parod am gyflwyno aelodau newydd**

Am bob aelod y llwyddwch i'w recriwtio i **UCAC**, byddwch chi a'r aelod newydd yn derbyn **£25** yr un.

**Ni ellir manteisio ar y cynnig hwn ar y cyd ag unrhyw gynnig ymaelodi arall.*




**Manteisiwch ar y cyfle!**

**Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth:**
ucac@ucac.cymru | 01970 639950

UCAC Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

2 Neges gan y Llywydd 3 Wrecsam 5 Dod i adnabod Swyddog Maes 7 Edrych yn ol ac Edrych ymlaen

# NEGES GAN Y LLYWYDD

Annwyl Aelodau,

Rwyf bellach wedi dechrau ar fy mlwyddyn fel Llywydd yr Undeb, ac yn dymuno diolch o galon i chi oll am yr anrhydedd a'r fraint o gael gwasanaethu yn y rôl hon. Mae'r hanner tymor cyntaf wedi bod yn un prysur!

Yn ystod yr wythnosau cyntaf, rwyf wedi cyfarfod â sawl Athro Newydd Gymhwyso. Mae bob amser yn ysbrydoledig cyfarfod â'r genhedlaeth nesaf o addysgwyr — gan fy atgoffa o'r boddhad a'r ymdeimlad o gyflawniad mae'r proffesiwn wedi'i roi i mi dros yr ugain mlynedd ddiwethaf.

Fel y gwyddom, mae'r proffesiwn dysgu yn wynebu nifer o heriau cynyddol. Yn ystod fy mlwyddyn fel Llywydd, byddaf yn canolbwyntio ar wrando ar aelodau, ymweld ag ysgolion ar hyd a lled Cymru, a chodi eich pryderon yn uniongyrchol gyda'r cyrff perthnasol. Mae'r gwaith hwn eisoes ar y gweill, gyda chyfarfodydd adeiladol wedi'u cynnal gyda chynghorau a gweithgorau Llywodraeth Cymru — gan sicrhau bod llais UCAC ac aelodau'n cael ei gynrychioli'n glir ac yn bwrpasol.

Yn ddiweddar cefais y fraint o gadeirio'r drafodaeth Bord Gron yng Nghynhadledd Flynyddol Plaid Cymru yn Abertawe, lle cyflwynodd panel UCAC ein maniffesto i Cefin Campbell a chynrychiolwyr o'r sector addysg ledled Cymru. Cafwyd trafodaeth fywiog, adeiladol a heriol – un a adlewyrchodd ein huchelgais ar y cyd i godi safonau a chryfhau'r proffesiwn addysgu yng Nghymru. Mae'n gyfnod cyffrous i'n sector, gyda'r don gyntaf o gymwysterau Cwricwlwm i Gymru bellach ar waith yn ein hysgolion.

Fodd bynnag, mae'r cyfnod pontio hwn hefyd yn dod â chynnydd yn y llwyth gwaith, a hynny mewn cyd-destun lle mae diffyg adnoddau, amser ac arweiniad yn peri pryder i lawer.

Mae UCAC yn sefyll yn gadarn dros wella amodau gwaith athrawon ac addysgwyr ledled Cymru. Rhaid dweud yn glir – ni ellir codi safonau mewn addysg heb sicrhau fod y rhai ar y rheng flaen yn cael y gefnogaeth a'r parch sy'n ddyledus iddynt.

Ar hyn o bryd, mae'r llwyth ar ein hathrawon yn cynyddu: mae dosbarthiadau'n tyfu, adnoddau'n lleihau, ac mae disgwyl i athrawon baratoi ar gyfer cyrsiau ac asesiadau newydd heb yr amser na'r gefnogaeth briodol. Ar ben hynny, mae mwy o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol gydag anghenion cymdeithasol a dysgu cymhleth, ond llai o wasanaethau ar gael i'w cynorthwyo.

Mae ymddygiad heriol hefyd yn bryder cynyddol, gyda nifer o athrawon yn teimlo bod pobl yn dangos llai o barch tuag atynt – boed hynny gan rai disgyblion, rhai rhieni neu, yn anffodus, weithiau yn y cyfryngau. Yn sgil digwyddiadau diweddar, mae hyd yn oed pryderon ynghylch diogelwch personol mewn ysgolion.

Mae'r neges yn syml: os ydym am i addysg yng Nghymru ffynnu, rhaid i ni fuddsoddi yn ein hathrawon ac yn eu hamodau gwaith.

Hoffwn annog aelodau i rannu eu profiadau a'u syniadau ar sut y gallwn ysgafnhau'r llwyth gwaith ac atgyfnerthu'r gefnogaeth i'r proffesiwn. Cewch gysylltu'n uniongyrchol â mi drwy e-bost: llywydd@ucac.cymru. Byddaf yn gwneud fy ngorau glas i gynrychioli eich llais yn glir ac yn effeithiol.

Mewn Undeb mae Nerth.

***Sara Edwards, Llywydd Cenedlaethol 25-26***

# EISTEDDFOD Wrecsam







## Hamper

Erbyn hyn, mae Eisteddfod Wrecsam yn ymddangos ymhell yn y gorffennol. Diolch i bawb a ddaeth i'n stondin a diolch arbennig i bawb a lanwodd yr holiadur.

Llongyfarchiadau mawr i Llinos Howells o Ferthyr Tudful a enillodd yr hamper.

## Holiadur

Diolch i bawb a lanwodd yr holiadur. Yn ogystal â'r holiadur, rhoddwyd cyfle ar y stondin yn yr Eisteddfod i ymateb i bedwar gosodiad.

**Pa un o'r canlynol sydd bwysicaf?**

1. Sicrhau bod CPA yn o leiaf 20% o'r amser dysgu (yn hytrach na'r 10% presennol)
2. Dim mwy o newidiadau i'r system addysg
3. Llai o brosesau biwrocrataidd
4. Cyllido digonol

**A dyma'r canrannau. Pa ganran sy'n mynd gyda pha osodiad. Dyfalwch ac yna ewch i'r dudalen olaf i gael yr ateb cywir.**

a) 15.58%
b) 19.48%
c) 23.38%
d) 41.56%







Canlyniadau ar y dudalen olaf

# MANIFFESTO UCAC

Bu'r ymatebion i'r holiadur a'r gosodiadau yn gymorth wrth i ni lunio ein maniffesto.

Bellach rydym wedi cyhoeddi ein maniffesto ac wedi ei gyflwyno i rai o'n pleidiau gwleidyddol. Gallwch ddarllen y maniffesto'n llawn drwy ddilyn y ddolen isod:

<u>**DOLEN**</u>
Cyn ichi ddarllen y maniffesto'n llawn, rydym yn cynnig crynodeb o'r cynnwys isod.

Gellir crynhoi'r maniffesto i'r pedair llythyren sydd wedi'u cynnwys yn yr acronym **UCAC**:

**Uchafswm** oriau gweithio wythnosol – Sicrhau bod ffiniau pendant i ddiwrnod gwaith addysgwyr.

**Cyllid ysgolion** - Sicrhau bod ein hysgolion yn cael eu cyllido'n deg, fel bod digon o staff a digon o adnoddau.

**Amodau Gwaith athrawon** – Sicrhau bod addysgwyr yn gallu canolbwyntio ar eu priod waith – addysg plant a phobl ifanc.

**Cymraeg** – Sicrhau bod statws haeddiannol i'r Gymraeg a bod cyfleoedd realistig a gwerthfawr i hybu ac ehangu'r defnydd ohoni.






# Dod i adnabod....

## SWYDDOG MAES Y DE-DDWYRAIN A PHOWYS

**Enw**: Mererid Lewis Davies
**Swydd**: Is-Ysgrifennydd Cyffredinol a Swyddog Maes y De-ddwyrain a Phowys

**Hoff ddiddordebau:**
Yn ystod fy amser hamdden rwy'n mwynhau cerdded y ddau gi sydd gennnyf ac rwy'n ffodus iawn o fyw mewn ardal lle mae nifer o lwybrau cerdded hyfryd. Fel arall rwy'n mwynhau bod yn grefftus ac yn arbennig crosio.Byddaf hefyd yn mwynhau mynd i weld cyngherddau o gerddoriaeth gwahanol a hefyd comedi.

**Hoff le yng Nghymru a pham:**
Aberystwyth ac yn arbennig Capel Madog yw fy hoff le yng Nghymru. Dyma fro fy mebyd a lle'm ganwyd. Yn lwcus mae fy nheulu dal yn byw yng Nghapel Madog ac rwy'n mynd "adre" yn aml i'w gweld. Hefyd i unrhywun sydd wedi eu magu ger y môr, doeddwn i byth yn meddwl y buaswn i'n colli gweld y môr, ond mae gweld yr olygfa wrth ddod lawr rhiw Penglais a'r môr o'ch blaen wastad yn codi gwên.



**Hoff le bwyd:**
Ar hyn o bryd fy hoff le bwyd yw bwyty'r Walnut Tree, tu allan i'r Fenni. Rwy'n lwcus fod y bwyty yma ddim yn bell o le dw i'n byw. Mae'r bwyd yn fendigedig yno.
**Hoff bryd:**
Unrhywbeth ma' mam yn ei goginio! Hefyd pe bawn i'n gorfod dewis math o fwyd, rwy'n hoff iawn o fwyd Eidalaidd.

**Byw neu farw – pwy fuasech chi'n hoffi cwrdd i gael sgwrs dros baned?**
Cwestiwn anodd, wedi hir bendroni, buaswn i wrth fy modd yn gallu cael un sgwrs arall gyda fy nhad.
**Y perfformiad gorau i chi ei weld:**
Dw i wedi bod yn ffodus i weld nifer o gyngherddau arbennig o dda. Mae gen i ddau – gweld Bette Midler yn Hello Dolly ar Broadway a'r llall yw cyngerdd dathlu cerddoriaeth James Bond yn y Royal Albert Hall gyda Shirley Bassey yn canu Goldfinger.

**Pe baech yn cael newid un peth yn system addysg Cymru, beth fyddai hwnnw?**
Bod athrawon yn gwneud y swydd maent wedi eu hyfforddi i'w gwneud – sef addysgu. Mae'r gofynion ychwanegol sydd wedi eu gosod ar y proffesiwn dros y blynyddoedd diwethaf yn ormod ac mae angen cefnogaeth ar ysgolion i fynd i'r afael â'r heriau hynny.

**Pam rydych chi'n mwynhau bod yn Swyddog Maes?**
Rwy'n cael y cyfle i ddod i adnabod aelodau UCAC drwy'r gwaith maes ac mae hynny'n bwysig i mi. Rwy'n ceisio fy ngorau i roi'r gefnogaeth fwyaf i'r aelodau sydd dan fy ngofal ac mae gweld llwyddiant neu ganlyniad da i fater wastad yn rhoi boddhad.

# HERIAU A DYHEADAU

## Dilwyn Roberts

Yn ddi-os, mae dysgu'n swydd heriol ac mae UCAC yn parhau i fynychu trafodaethau, ar lefel lleol a chenedlaethol, sy'n ystyried yr heriau hynny.

Trafodwyd ymddygiad disgyblion yn rhifyn diwethaf Yr Athro. Mater arall y mae angen rhoi sylw iddo yw'r diffyg hyblygrwydd sydd i'r swydd.

Er bod oriau ysgol yn y mwyafrif o ysgolion yn gyson mae arweinyddion ac athrawon yn gweithio ymhell y tu hwnt i'r oriau hynny. Fodd bynnag, nid yw'r amodau gwaith presennol yn cydnabod hyn mewn unrhyw ffordd ac mae'r egwyddor o TOIL (Time Off In Lieu) yn gwbl estron i fyd addysgu.

Mae UCAC wedi bod yn ymgyrchu i sicrhau mwy o amser ar gyfer Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) ond hefyd mae angen sicrhau bod trafodaeth ar yr angen i gael gofod priodol mewn ysgolion a chyfleoedd i weithio o adref. Ar hyn o bryd, mae'r trefniadau yn anghyson ac mae tarfu ar amser CPA yn broblem cynyddol oherwydd yr holl ofynion ar arweinyddion ac athrawon.

Hefyd, mae ein haelodau'n aml yn cysylltu oherwydd diffyg hyblygrwydd i fynychu apwyntiadau ysbyty; priodasau ac angladdau; digwyddiadau teuluol arbennig ac yn y blaen. Mewn swyddi eraill mae'r hyblygrwydd hwn yn rhan naturiol o fywyd gwaith ond ym myd addysg mae'n fater heriol i bawb.

Rydym yn awyddus i glywed gennych am yr heriau sy'n dod i ran ein haelodau ond hefyd sylwadau ar ddatrysiadau fydd yn bwydo i'n trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru; Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ac ar lefel llywodraeth leol.



# EDRYCH YN ÔL ...AC EDRYCH YMLAEN

Ddiwedd y tymor hwn, fe fydd Jeffrey Connick, Pennaeth Ysgol Gyfun Gŵyr, yn rhoi'r gorau i'w rôl fel Pennaeth. Dyma gyfle, felly, i'w holi a gofyn am ei argraffiadau o fyd addysg ac arweinyddiaeth.

**Er mwyn dod i'ch adnabod yn well, rhowch ychydig o'ch hanes a'ch cefndir.**

Un o Waun-Cae-Gurwen ydw i yn wreiddiol ac ar ôl derbyn fy addysg uwchradd yn Ysgol Gyfun Ystalyfera, es i Goleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, i astudio Hanes a Chymraeg. Ar ôl graddio, cefais gyfnod o wneud gwaith ymchwil a chyfnod yn gweithio mewn Cymdeithas Adeiladu, cyn dilyn cwrs ymarfer dysgu ym Mhrifysgol Abertawe. Ym mis Hydref 1989, fel rhan o'r cwrs hyfforddi i fod yn athro Hanes, treuliais gyfnod ymarfer dysgu yn Ysgol Gyfun Gŵyr. Ymhen y flwyddyn roeddwn yn dechrau ar fy ngyrfa fel athro, gan ymuno'n barhaol ag Adran Gymraeg yr ysgol ac yna, flwyddyn yn ddiweddarach, fe'm penodwyd yn Bennaeth Hanes yr ysgol. Wedi deng mlynedd o fod yn Bennaeth Hanes, dechreuais ar gyfnod ar Uwch Dîm Arwain yr ysgol, yn gyntaf yn Bennaeth Cynorthwyol, yna yn Ddirprwy cyn dod yn Bennaeth yr ysgol ym mis Ionawr 2022.



Wrth edrych yn ôl ar fy ngyrfa, rwy'n falch iawn imi ddewis gyrfa ym maes addysg. Mae bod yn athro a Phennaeth wedi dod â chryn bleser. Rwy'n teimlo'n freintiedig iawn o fod wedi cael dod i adnabod a chydweithio gyda phobl arbennig iawn. Bu'r 35 mlynedd yn Ysgol Gyfun Gŵyr yn rhai hapus iawn-yn enwedig gan i mi gwrdd â'm gwraig yma!

**Beth yw'r prif newidiadau yn ystod 35 mlynedd eich gyrfa?**

Mae'n anorfod fod pethau wedi newid yn ystod y 35 mlynedd a'r hyn sy'n fy nharo yn bennaf yw'r pwysau cynyddol sydd ar bobl ifanc. Daw'r pwysau hynny o nifer o gyfeiriadau gwahanol, gan gynnwys y system addysg a'i asesu parhaus, y cyfryngau cymdeithasol a disgwyliadau pobl ifanc ohonynt eu hunain. Ni ellir gwadu chwaith yr effaith fawr a gafodd y pandemig ar genhedlaeth gyfan, cenhedlaeth a gafodd eu hamddifadu am gyfnod hir o'r cyfleoedd i gymdeithasu gyda'u cyfoedion ac sydd hyd yn oed, bum mlynedd yn ddiweddarach, yn ei chael yn anodd torri allan o'u bodolaeth ynysig, mewnblyg. Er gwaethaf y newidiadau ym myd addysg, mae rhai pethau sy'n parhau'r un fath. Yr un yw anghenion craidd pobl ifanc – yr angen am gael addysgwyr i gredu ynddynt a'u cyfarwyddo i wireddu eu potensial, yn wir, i'w cael i gredu fod yr amhosibl yn bosibl! Fy neges gyson i'm disgyblion yw 'Peidiwch ag edrych ar faint y mynydd, ond gwnewch yn siŵr eich bod yn dringo ychydig yn uwch bob dydd'. Mae cyfraniad athrawon tuag at lwyddiant academaidd a lles dysgwyr yn arwyddocaol ac yn allweddol. Dyna'r math o staff sydd ei angen arnom yn ein hysgolion – staff didwyll sy'n buddsoddi yn eu dysgwyr.

**Beth oedd uchafbwyntiau eich gyrfa fel Pennaeth?**

Rhaid sôn am ddathliadau penblwydd Ysgol Gyfun Gŵyr yn 2024-25 yn ddeugain . Mae yna ymdeimlad o falchder yn nhwf a datblygiad yr ysgol – o fod yn ysgol fach o ddim ond can disgybl ym 1984 i fod yn ysgol lwyddiannus o tua 1,200 o ddisgyblion erbyn hyn.

Mae datblygiadau diwethaf o ran adeilad ac adroddiad canmoliaethus Estyn hefyd ymhlith uchafbwyntiau fy nghyfod yn Bennaeth, yn ogystal â'r ffaith i'r ysgol berfformio yn Gymraeg yn y Theatr Genedlaethol yn Llundain yn Haf 2024-y tro cyntaf erioed i iaith ar wahân i'r Saesneg gael ei defnyddio ar lwyfan y theatr fyd-enwog hon.

**Beth yw'r heriau pennaf sy'n wynebu byd addysg, yn eich barn chi?**
Yr her fwyaf i Benaethiaid, yn fy marn i, yw'r diffyg cyllid i wireddu gweledigaeth. Daw pwysau o Lywodraeth Cymru i wella safonau a datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd.
Mae gan ysgolion ddigon o gynlluniau, syniadau a brwdfrydedd ond nid oes ganddynt y cyllid i wireddu eu cynlluniau. Mae angen mwy o arian i gyflogi mwy o staff ac i brynu mwy o adnoddau. O gael yr arian, byddai modd cyflawni dyheadau'r Llywodraeth. Er gwaethaf yr heriau, rwyf o'r farn mai swydd Pennaeth yw'r swydd orau bosibl, sy'n dod â llawer o bleser a hunanfoddhad. Wrth edrych yn ôl ar fy ngyrfa, rwy'n difaru na chymerais y cyfleoedd i fod yn Bennaeth ynghynt yn fy ngyrfa.

**Beth yw pwysigrwydd UCAC i athrawon a Phenaethiaid?**
Rwy'n ddiolchgar i UCAC am bob cefnogaeth yn ystod fy ngyrfa ac yn gwerthfawrogi'r ochr bersonol iawn sydd i wasanaeth yr Undeb. Rwy'n creu bod UCAC yn sefydliad allweddol i hyrwyddo buddiannau athrawon Cymru ac mae'n bwysig dros ben fod yr Undeb yn parhau i wneud hynny.Cefais fudd arbennig o fynychu cynadleddau UCAC ac o fod yn aelod am ryw bymtheng mlynedd o Adran Arweinwyr yr Undeb.

**Beth yw eich cynlluniau i'r dyfodol?**
Rwy'n ymddeol o'm rôl fel Pennaeth ddiwedd y tymor ond rwy'n bwriadu parhau i weithio ym myd addysg am gyfnod. Ymhlith y pethau rwy'n ystyried eu gwneud yn y dyfodol, mae gwaith gwirfoddol, treulio mwy o amser gyda'r teulu a chael y cyfle i deithio.

*Rydym yn dymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad.*

## BETH SY'N POENI ATHRAWON YN Y FLWYDDYN 2025? A OES UNRHYW BETH YN NEWID?

**Llwyth gwaith**, newidiadau rheolaidd i'r cwricwlwm, ymddygiad disgyblion, prinder athrawon – dyma rai o'r themâu a glywir yn aml. Efallai ein bod yn dueddol o feddwl mai problemau newydd yw'r problemau hyn, ond o edrych ar hen rifynnau o'r Athro, yr hyn sy'n amlwg yw fod y materion hyn wedi bod yn poeni athrawon ar hyd y degawdau. Dyma enghreifftiau o'r hyn a ysgrifennwyd rhwng 1955 ac 1995.


**NEWIDIADAU CYSON**
Onid oes newid mawr wedi bod yn hanes addysg ers deng mlynedd ar hugain? Y mae dulliau cyfrannu addysg heddiw yn bur wahanol i'r hyn oeddynt..... Ac y mae cynnwys yr hyn a ddysgir yn wahanol mewn llawer cyfeiriad. (Tachwedd 1955)

**PRINDER ATHRAWON**
'Y mae'n ymddangos...y bydd yna brinder sylweddol o athrawon ar gyfer dysgu pynciau gwyddonol fel Mathemateg a Ffiseg yn ein hysgolion uwchradd......Yr hyn y dylai'r llywodraeth bresennol ei gydnabod yw fod yr amodau gwaith a'r safon cyflog sydd ar gael yn y diwydiannau technolegol newydd i'r sawl sy'n meddu ar radd mewn gwyddonaieth yn llawer gwell na'r hyn sy'n cael ei gynnig i'r un person os yw'n penderfynu dewis gyrfa fel athro neu athrawes. Os yw'r Llywodraeth am lwyddo i ddenu mwy o wyddonwyr graddedig i fod yn athrawon yn ein hysgolion mae'n rhaid iddi hefyd well, yn sylweddol, amodau gwaith a chyflogau athrawon.' (Yr Athro Gorffennaf 1985)

**DISGYBLAETH**

'Mae ymddygiad plant heddiw wedi gwaethygu'n enfawr. Nid oes gan blant barch tuag at athrawon nac oedolion yn gyffredinol. Ni ellir cael y gorau o addysg o dan yr amodau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae hawliau disgyblu wedi eu dileu heb roi dim y neu lle. Does dim arian, dim anolfannau I balnt anytywallt na hyfforddiant ar sut I ymdrin a chamymddwyn.....Mae diffyg cefnogaeth y rhieni pan yn ymdrin â phroblemau disgyblaeth yn fwgan.... Ydy cyrsiau hyfforddi athrawon yn darparu athrawon sydd yn ymwybodol o'r problemau disgyblaethol y gallant eu wynebu? A oes yna ymgais i roi hyfforddiant priodol.Mae angen llunio ryw fath o siarter hawliau athrawon a dylid datblygu wir bartneriaeth gyda'r asiantaethau allanol.' (Yr Athro, TYmor yr Hydref 1995)

## ABSENOLDEB MAMOLAETH, TADOLAETH A RHIANT A RENNIR



Cofiwch ein bod yn cynnig **AELODAETH HANNER PRIS** yn ystod cyfnod o Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth/Rhiant a Rennir os ydych yn talu trwy ddebyd uniongyrchol.

Er mwyn manteisio ar y cynnig hwn, mae'n angenrheidiol eich bod yn rhoid gwybod i ni:

aelodaeth@ucac.cymru

01970 639950



**NID YW UCAC YN CYNNIG AD-DALIAD OS NAD YDYCH WEDI EIN HYSBYSU O'R NEWID O FLAEN LLAW.**

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

**CASGLIAD**

Fodd bynnag, mentrwn ddweud fod y problemau yn ddwysach erbyn hyn a bod y problemau wedi gwaethygu'n gyson ar hyd y degawdau. Eto i gyd, mae'n rhaid cwestiynu beth sydd wedi ei wneud ar hyd y blynyddoedd i wella amodau gwaith athrawon. Pe bai camau brasach wedi eu cymryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa, go brin y byddem yn wynebu'r heriau sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd.Mae'n bwysig, felly, fod rhywbeth yn digwydd er mwyn sicrhau na fydd pethau'n gwaethygu eto.

## DWEUD EICH DWEUD AM HMS

Beth yw eich barn am ddiwrnodau HMS? A oes digon ohonynt? A yw'r trefniadau yn effeithiol? A wneir y defnydd gorau o amser? Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno cael barn athrawon ar hyn o bryd. Rydym yn eich annog i lenwi'r holiadur byr isod.

## Holiadur – Diwrnodau HMS

https://forms.office.com/e/rYMe7ErRMK (-> linkprotect.cudasvc.com)

Yn ogystal â'ch annog i lenwi'r holiadur, rydym hefyd yn gofyn i chi ystyried cymryd rhan yn un o'r grwpiau ffocws a fydd yn cael eu sefydlu cyn bo hir. Bydd y grwpiau ffocws hyn yn gyfle i athrawon a staff cymorth roi adborth am eu profiadau HMS. Os oes diddordeb gennych, dilynwch y ddolen isod a llenwch y ffurflen.

**Ffurflen i gofrestru parodrwydd cymryd rhan mewn grwp ffocws athrawon ar ddiwrnodau HMS**

https://forms.office.com/e/eNymv1zUSP (-> linkprotect.cudasvc.com)

# LLES ATHRAWON

Mae Education Support wedi cyhoeddi pecyn cymorth newydd ar gyfer athrawon, gyda chyngor defnyddiol ynghylch lles. Er mwyn dod o hyd i'r adnoddau, dilynwch y ddolen isod:

retention-toolkit_culturesthatcare_welsh.pdf

Mae'r pecyn cymorth yn pwysleisio pa mor bwysig yw GWERTHFAWROGIAD o ran lles unigolion. Mae'r cyngor isod wedi ei nodi ar gyfer arweinwyr mewn ysgolion. Os ydych yn rheolwr llinell neu'n gyfrifol am dîm o fewn yr ysgol, mae'r cyngor hwn yn werthfawr. Cofiwn fod yr egwyddor o ddangos gwerthfawrogiad o eraill yn berthnasol i bob un ohonom.

**SUT I WERTHFAWROGI STAFF MEWN YSGOLION**

Nid oes ffordd well o ddangos gwerthfawrogiad o unigolion eraill na thrwy roi blaenoriaeth i'w lles a'u hiechyd meddwl. Dylid rhoi lles wrth galon unrhyw benderfyniad a wneir a chreu amgylchedd a diwylliant lle maent yn teimlo'n seicolegol ddiogel ac mae hynny'n golygu mwy na dweud y gair 'Diolch'.

**5 cam i ddangos gwerthfawrogiad:**

**1. GWRANDO** – Mae gwybod bod rhywun yn gwrando arnoch yn gam pwysig yn y broses o wybod a theimlo fod rhywun yn eich gwerthfawrogi. Mae'n bwysig bod arweinwyr yn ymwybodol iawn o'r ffordd mae staff yn teimlo a'u bod yn cymryd amser i wirio'n gyson sut mae pethau. Rhaid gwrando a 'chlywed' beth sydd gan staff i'w ddweud. Weithiau, mae hyn yn golygu edrych yn ddyfnach ar rai materion. Ar ôl gwirio, gwrando ac ystyried yn fanylach, mae'n bwysig deall beth yw rhai o'r rhesymau pam nad yw staff yn teimlo ar eu gorau. Efallai na fydd yr arweinwyr yn gallu datrys popeth, ond mae'n bwysig eu bod yn deall beth yw'r problemau.

**2. YMATEB** - Mae'n ofer gwrando heb ymateb. Beth yw eich cynllun i gefnogi iechyd meddwl a lles staff. Mae gwneud rhywbeth am y mater yn ffordd o ddangos eich bod yn gwerthfawrogi beth mae eich staff wedi bod yn ei ddweud wrthych.

**3. CREU CYFLEOEDD** i staff gael sgyrsiau ac i deimlo fod eu llais yn cael ei werthfawrogi. Mae'n bwysig fod ganddynt gyfle i sôn am yr heriau a'r problemau y maent yn eu hwynebu a sut maent yn teimlo. Mae siarad a thrafod yn agored yn werthfawr iawn ac yn hollbwysig yn y broses o greu awyrgylch ac amgylchedd iach.

**4. BUDDSODDI** mewn arweinwyr o bob math. Mae gan reolwyr llinell swyddogaeth bwysig ac mae'n bwysig bod amser ac arian yn cael eu gwario, er mwyn darparu'r sgiliau angenrheidiol i'r bobl hyn gyflawni eu gwaith.

**5. SICRHAU** eich bod yn cefnogi pobl pan nad ydynt yn teimlo ar eu gorau neu pan nad ydynt yn cyflawni eu gorau.


Cofiwn eiriau Maya Angelou "Rwyf wedi dysgu y bydd pobl yn anghofio'r hyn ddywedoch chi, bydd pobl yn anghofio'r hyn wnaethoch chi, ond fydd pobl byth yn anghofio sut wnaethoch chi iddyn nhw deimlo.'

# RHIFYN NESAF YR ATHRO

Wrth baratoi y rhifyn hwn, mae llawer o sôn am ddysgu darllen. Pa ddulliau yw'r gorau, sut mae sicrhau bod plant Cymru yn cyrraedd y safonau llythrennedd uchaf?

Os oes gennych unrhyw sylwadau, gair o brofiad neu farn am y pwnc, beth am anfon gair atom? Fe fydd hi'n Ddiwrnod y Llyfr yn ystod y tymor nesaf hefyd. Pa lyfr sydd wedi dylanwadu fwyaf arnoch? Ydych chi'n cofio'r broses o ddysgu darllen? Efallai eich bod yn cofio'r profiad o ddysgu darllen eich hunan. Dewch â'ch straeon a'ch profiadau. Anfonwch unrhyw gyfraniad erbyn 2 Chwefror 2026. Bydd gwobr am yr erthygl fwyaf diddorol.

Canlyniadau holiadur yr Eisteddfod




- Amser CPA – isafswm o 20% amser dysgu – 41.56%
- Dim mwy o newidiadau i'r system addysg – 15.58%
- Llai o brosesau biwrocrataidd – 19.48%
- Cyllido digonol – 23.38%




## BWRDD GOLYGYDDOL

**Llywydd Cenedlaethol:** Sara Edwards
**Is-Lywydd:** Rhun Llwyd
**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Ioan Rhys Jones
**Is-ysgrifennydd Cyffredinol:** Mererid Lewis Davies
**Cydlynydd Yr Athro:** Iona Davies
**Dylunydd:** Nia Evans

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at:

Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU
Ffôn: 01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru